# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 14eg 2023 yn Neuadd Parc. Yn bresennol oedd Euros Puw (cadeirydd), Arwel Davies, Geraint Jones, Jean Roberts, Rhys Richards, Gwynfryn Williams, Rhys Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Charles.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Ionawr a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Nodwyd y buddiant gyda'r ceisiadau cynllunio ac ariannol perthnasol isod.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Cyfethol aelod newydd.
Derbyniwyd llythyr gan Catrin Roberts yn datgan diddordeb mewn ymuno a'r Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol i'w cyfethol fel cynghorydd.

b) Cynrychiolaeth ar Gorff Llywodraethol Cysgod y Foel.
Cytunwyd i ddewis cynrychiolydd yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mai.

c) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Ffordd wedi gwanhau ger Groeslon, Maesywaen – roedd yr Arolygwr Priffyrdd am gadw golwg ar y safle.
ii) Coeden ger Pentrefelin, Parc yn beryg o ddisgyn i'r ffordd – roedd yr Adran Priffyrdd am yrru llythyr i'r perchennog yn gofyn iddynt dorri'r goeden.
iii) Coeden helyg yn tyfu drwy cattle grid y Nodol, Arenig – roedd y goeden wedi cael ei thorri.
iv) Nifer o gwteri wedi tagu a dŵr yn hel ar y ffordd ar riw Plas Madog, ger mynedfa Rafail a Hafod y Nant, Parc a phant yn y ffordd ger y Fedw, Parc – roedd y gweithlu wedi cael cyfarwyddiadau i ddelio gyda'r problemau.
vi) Cwynion fod canghennau'r coed ar riw Llanycil yn rhigo ochrau loriau 'curtain siders' – roedd yr Adran Priffyrdd am yrru llythyr i'r perchennog yn gofyn iddynt dorri'r coed.
vii) Pryder fod lorïau artic yn dilyn cyfarwyddiadau eu sat-nav ac yn dod o gyfeiriad Wern Goch ac yn ceisio dod drwy bentref Parc. Roedd y cais am arwydd i rybuddio gyrrwyr fod y ffordd yn anaddas wedi cael ei anfon ymlaen i'r Uned Draffig yng Nghaernarfon.
viii) Pryder am ddiogelwch gyrrwyr yn ceisio ymuno a'r A494 ger Wern Goch – roedd yr Asiantaeth Cefnffyrdd wedi cysylltu'n ôl yn cadarnhau nad oeddynt yn teimlo fod unrhyw rwystr i weledtedd yno.

**iv) Gohebiaeth.**
Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Cau'r ffordd ger Tŷ Capel, Llanycil ar y 21/03/23 er mwyn i BT gwblhau gwaith.

b) Heddlu Gogledd Cymru.
i) Gwahoddiad i gyfarfod yn Orsaf Y Bala. Cafwyd adroddiad gan Jean Roberts ac Arwel Davies o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod.

c) Llywodraeth Cymru.
i) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - nodwyd argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Trafodwyd y cydnabyddiaeth dewisol a chytunwyd nad oedd y cynghorwyr yn dymuno hawlio'r lwfans presenoldeb na unrhyw daliadau ar gyfer cyflawni'r swyddi Cadeirydd, Is-gadeirydd ac nid oedd unrhyw gyfrifoldebau penodol amlwg iddynt. Cytunwyd y dylid ad-dalu'r cynghorwyr am unrhyw gostau teithio ayyb wrth fynychu cyfarfodydd ar ran y Cyngor. Nodwyd y cydnabyddiaeth a oedd yn



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

orfodol, y taliad costau ychwanegol a chostau gofal. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen iddynt hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.

ch) Parc Cenedlaethol Eryri.
i) Sefyllfa parcio ar safleodd y Parc ar Flaendraeth Llyn Tegid a Maes Parcio, Llangywer.

d) Plaid Cymru.
i) Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru – cadarnhad y byddai'r gwasanaeth yn parhau o'r meysydd awyr yng Nghaernarfon a'r Trallwng.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-
a) NP5/72/24A – Dymchwel annedd is-safonol presennol ac adeiladu annedd newydd. Garth Nodol, Llidiardau.
b) NP5/72/241A – Adeiladu estyniad unllawr. 1 Maes Gwyn, Rhyduchaf. (Arwel Davies yn datgan buddiant).

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i'r ceisiadau.

**vi) Materion Ariannol**
a) Penodi Archwiliwr Mewnol.
Cytunwyd yn unfrydol i benodi Uned Archwilio Fewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon. Gofynnwyd i'r clerc anfon y llythyr ymrwymiad arferol iddynt.

b) The Pension Regulator.
Gofynnwyd i'r clerc gwblhau'r broses ailgofrestru berthnasol.

c) Adroddiad Ariannol i ddiwedd Chwefror (monitro derbyniadau a thaliadau).
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

c) Taliadau
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
1) Cyflog a chostau'r clerc (Ionawr i Fawrth).
2) CTHEM (TWE).
3) Un Llais Cymru (tal aelodaeth).
4) Neuadd y Parc (llogi).
5) Neuadd y Maesywaen (llogi).
5) Tanysgrifiad Zoom (½ y gost gyda Chyngor Llandderfel).
6) Gliniadur newydd a manion (1/2 y gost gyda Chyngor Llanycil). Cadarnhaodd y clerc fod y gliniadur yn cael ei gynnwys o dan y polisi yswiriant cyfredol.

ch) Ceisiadau Ariannol.
Cytunwyd i gyfrannu fel y ganlyn:-

| | |
|---|---|
| 1) Neuadd Y Parc | £150 (Euros Puw yn datgan buddiant) |
| 2) Neuadd Maesywaen | £150 |
| 3) Cylch Meithrin Garn Bach Tryweryn | £150 |
| 4) Ysgol Bro Tryweryn | £150 |
| 5) Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn | £75 |
| 6) Eisteddfod Talybont | £150 |
| 7) Sioe Ardal Maesywaen | £50 (Rhys Jones yn datgan buddiant) |
| 8) CFFI Meirionnydd | £100 |
| 9) Eisteddfod Urdd Cylch Meirionnydd | £25 |
| 10) Cantref | £25 |
| 11) Eisteddfod Talaith a Chadair Powys | £50 |
| 12) Ambiwlans Awyr Cymru | £50 |
| 13) Ty'r Eos | £50 |
| 14) Tŷ Gobaith | £25 |
| 15) Macmillan | £25 |


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

Wrth drafod y swm o arian tu cefn, cytunwyd i gadw £1,500 o’r arian ar gyfer y posibilrwydd fydd angen adnewyddu’r llochesi bws yn y blynyddoedd nesaf.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i’r clerc basio’r mater canlynol ymlaen:-
i) Angen glanhau'r ffosydd yn ardal Arenig yn enwedig wrth Pant Rhedydd ac o gwmpas yr hen chwarel.
ii) Sbwriel ar hyd ochr yr A494 o Lanycil i Wern Goch, yn enwedig wrth Cerrig Llwydion.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mai 16eg am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.**



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….